# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 43 Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol: atodol

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch rheoliadau a wneir o dan adran 42.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud o dan y rheoliadau ar y sail bod gan ddisgybl neu blentyn anghenion dysgu ychwanegol neu y gall fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol (gweler, yn hytrach, adran 41).

(3) Rhaid i'r rheoliadau bennu bod cyfnod gweithredol penderfyniad a wneir o dan y rheoliadau naill ai—

(a) yn gyfnod penodol a bennir yn y penderfyniad nad yw'n hwy na 6 mis, neu

(b) yn gyfnod y mae rhaid dod ag ef i ben (yn unol â'r rheoliadau) heb fod yn hwyrach na 6 mis i'w ddechrau.

(4) Ond caiff y rheoliadau bennu cyfnod gweithredol gwahanol ar gyfer penderfyniad os yw'r cyfnod gweithredol hwnnw i ddechrau—

(a) yn union ar ôl diwedd cyfnod gweithredol penderfyniad blaenorol, neu

(b) cyn diwedd cyfnod, a bennir yn y rheoliadau, sy'n dechrau â diwedd cyfnod gweithredol penderfyniad blaenorol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 43. (See end of Document for details)*

(5) Caiff y rheoliadau alluogi person sy'n gwneud penderfyniad o dan y rheoliadau—

(a) i amrywio'r penderfyniad, ac eithrio mewn perthynas â'i gyfnod gweithredol, neu

(b) i ddirymu'r penderfyniad.

(6) Caiff y rheoliadau bennu—

(a) ym mha achosion neu o dan ba amgylchiadau y caniateir amrywio neu ddirymu penderfyniad a wneir o dan y rheoliadau;

(b) amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caniateir amrywio neu ddirymu penderfyniad a wneir o dan y rheoliadau.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod gweithredol" penderfyniad yw'r cyfnod y mae'r penderfyniad yn cael effaith ar ei gyfer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 43 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 43 mewn grym ar 14.6.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 3(a)**

**I3** A. 43 mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 43.